Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, 3ydd Rhagfyr, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7 pm

Presennol: Cyng Ros Bellamy, Cadeirydd
Cyng Colin Jenkins, Cyng Christopher Parish, Cyng Hugh Towns,
Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Julia Jones,
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref,
Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid,
Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau : Y Maer Cyng Edward Thomas, Cyng Richard Wallace, Cyng Dawn Wallace, Y Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater.

Cof 203 / Rhagfyr / 08 Cyllideb Arfaethedig y Cyngor ar gyfer y Flwyddyn 2009-10

Mae cyflogau staff i godi 2.45%, i'w ddyddio yn ôl i Ebrill 2008, fel y cytunwyd yn genedlaethol.
Er bod costau ynni'n codi'n sylweddol, bydd y Cyngor yn ceisio bod yn bwyllog gyda'r angen i gadw unrhyw gynnydd lawr i isafswm, tra ar yr un pryd cynnig cymorth i gymaint â phosib o achosion lleol.
Cyflawnodd y pwyllgor arolwg hir i'w holl wariant. Yng ngoleuni'r hinsawdd ariannol presennol mae'r Pwyllgor yn argymell cyllideb ddigyfnewid am yr ail flwyddyn yn olynol.
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn fod y Pwyllgor yn argymell archebiant 2009-10 i barhau yn £ 47,674. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50 pm.